

EVANS, EVAN ('Ieuan Glan Geirionydd'; 1795 - 1855), offeiriad a bardd

Enw: Evan Evans

Ffugenw: Ieuan Glan Geirionydd

Dyddiad geni: 1795

Dyddiad marw: 1855

Rhiant: Elizabeth Evans

Rhiant: Robert Evans

Rhyw: Gwryw

Galwedigaeth: offeiriad a bardd

Maes gweithgaredd: Crefydd; Eisteddfod; Barddoniaeth

Awdur: David Gwenallt Jones

Ganwyd yn Tan-y-celyn, Trefriw, Sir Gaernarfon, 20 Ebrill 1795. Yr oedd ei dad, Robert Evans, yn fardd a llenor gwlad, a'i fam, Elizabeth, yn fwy diwylliedig na'r cyffredin; medrai ddarllen Saesneg a Chymraeg - y ddau ymhlith cychwynwyr Methodistiaeth Galffinaidd yn Nhrefriw. Danfonwyd Evan Evans i ysgol a gedwid yn eglwys Trefriw gan ryw Griffiths, ac oddi yno aeth i ysgol rad Llanrwst. Wedi gadael ysgol aeth adref i weithio ar y fferm. Codwyd pris y fferm gan stiwardiaid newydd Gwydir, ac ni allai ei rieni dalu'r pris a thalu'r ffordd, ac aethant yn dlawd eu byd. Aeth Evan Evans i gadw ysgol dydd yn 1816 i Dal-y-bont. Enillodd yn eisteddfod Wrecsam, 1820, ar awdl, 'Hiraeth Cymro am ei wlad mewn bro estronawl,' a daeth yno i gysylltiad â rhai gw r bonheddig, ac offeiriad fel [Richards](#), Caerwys, a [Jenkins](#), Ceri, a'r rhain a'u perswadiodd ef i fynd yn offeiriad. Aeth i Aberriw at y [Parch. Thomas Richards](#) am dipyn, ac oddi yno i Goleg S. Bees. Cafodd urddau eglwysig gan esgob Caerlleon, a thrwydded i ddarllen y gwasanaeth Cymraeg yn eglwys S. Martin, Caerlleon, 19 Chwefror 1826, ac ar 17 Rhagfyr cafodd guradiaeth Christleton. Bu yn Christleton tan 21 Ebrill 1843, a symud i guradiaeth Ince. Gadawodd Ince tua diwedd 1852 oherwydd colli ei briod ac afiechyd, ac aeth adref i Drefriw. Yng Ngorffennaf 1854 cafodd guradiaeth yn eglwys y Rhyl. Bu farw 21 Ionawr 1855, a chladdwyd ef ym mynwent eglwys Trefriw.

Cyhoeddwyd ganddo'r llyfrau crefyddol hyn: *Prynedigaeth Neillduol neu Grist yn rhoi ei hun dros yr Eglwys*, 1819?; *Amdiffyniad yr Athrawiaeth Ysgrythyrol o Brynedigaeth Neillduol* (1820), sef cyfieithiad o lyfr J. Hurrion; *Pedwar Cyflwr Dyn*, ... 1821, sef cyfieithiad o waith Thomas Boston (enw [J. Parry](#) sydd ar y cyfieithiad, ond tybir mai 'Ieuan Glan Geirionydd' a'i cyfieithodd); *Hymnau i'w defnyddio yn Eglwys St. Martin, y Prydnawn Sabboth cyntaf o'r Flwyddyn ...*; *Casgliad o Salmau a Hymnau at wasanaeth y Lithwriaeth Gymraeg yn Nghaerlleon*, ... 1829 (dywedwyd yn *Geirionydd* mai 'Welsh Lectureship' oedd *Y Lithwriaeth Gymraeg*, ond 'Welsh Liturgy' a olygir, yn ôl pob tebyg); *Y Seraph, sef casgliad o donau crefyddol ar amrywiol fesurau*, ... 1838; *Y Bibl Darluniadol*, 1844-47.

Bu 'Ieuan Glan Geirionydd' yn cynorthwyo'r [Parch. John Parry](#), Caerlleon, i olygu'r misolyn, *Goleud Gwynedd*; yn 1830 gyrrodd lythyr at yr esgobion yn gofyn am eu nawdd ar gyhoeddi cylchgrawn Cymraeg ar gynllun y *Saturday Magazine*, ac yn 1833 ymdangosodd *Y Gwladgarwr*. Bu 'Ieuan' yn ei olygu am dair blynedd, ac oherwydd colli arian aeth i feddiant

[Edward Parry](#), Caerlleon. Enillodd yn eisteddfod Llanelwy, 1818, ar 'Awdl ar farwolaeth y Dywysoges Charlotte'; yn eisteddfod Dinbych, 1828, ar 'Awdl ar Wledd Belsassar'; ac yn eisteddfod Dinbych 1850, am bryddest ar 'Yr Adgyfodiad.'

Bardd amryddawn oedd 'Ieuan Glan Geirionydd,' y bardd mwyaf amryddawn yn y ganrif ddiwethaf. Lluniodd awdlau, cywyddau, englynion, pryddest, cerddi rhydd, ac emynau. Perthynai i ysgol ryddfrydol '[Gwallter Mechain](#),' yr ysgol honno a ymosodai ar y mesurau caeth, ac a gychwynnodd lunio pryddestau a thelynegion. Y mae dylanwad yr 'ysgol fynwentig' yn Lloegr - Gray, Robert Blair, ac Edward Young - ar ei waith, a dylanwad emynwyr Lloegr fel Watts ac eraill ar ei emynau.

Awdur

David Gwenallt Jones, (1899 - 1968)

Ffynonellau

Evan Evans, William John Roberts a Richard Parry ('Gwalchmai') (goln.), *Geirionydd: Cyfansoddiadau Barddorol, Cerddorol, a Rhyddieithol y diweddar Barch. Evan Evans (Ieuan Glan Geirionydd). Wedi eu Casglu a'u Trefnu gan ei Nai, W. J. Roberts. Trefriw, gyda Nodiadau ar ei Fywyd a'i Weithiau Llenyddol* (1862)

Saunders Lewis, *Detholion o Waith Ieuan Glan Geirionydd* (Caerdydd 1931)

Darllen Pellach

Erthygl Wicipedia: [Evan Evans](#)

Delweddau

Amgueddfa Cymru: [Mrs Elizabeth Evans \(1756–1831\)](#)

Dolenni Ychwanegol

VIAF: [146181786](#)

Wikidata: [Q13128331](#)

Dyddiad cyhoeddi: 1953

Hawlfraint Erthygl: <http://rightsstatements.org/page/InC/1.0/> 

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n [tudalen codi arian](#) am ragor o wybodaeth.

